Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Mai 2022

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ddwyn sylw'r Pwyllgor at newid arfaethedig y Comisiwn i'w gyllideb gymeradwy ar gyfer 2022-23 drwy broses y Gyllideb Atodol.

I grynhoi, mae'r Comisiwn yn cynnig cynyddu ei gyllideb adnoddau gan £2.061 miliwn, y mae'r rhan fwyaf ohoni'n ymwneud â Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi, a chynyddu ei ofyniad arian parod net gan £325k.

Mae'r Comisiwn yn cynnig y newidiadau canlynol:

- **Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi** – cynnydd o £1.736 miliwn yn y gyllideb gyffredinol, heb unrhyw gynnydd yn y gofyniad arian parod net.

- **Newidiadau i'r gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau** – dim cynnydd yn y swm cyffredinol, fodd bynnag, cynigir newidiadau i'r llinellau unigol yn y gyllideb gan arwain at ddim cynnydd cyffredinol.

- **Costau i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynydd Safonau** – cynnydd net o £150k yn y gyllideb gyffredinol a'r gofyniad arian parod net; yng ngoleuni'r cynnydd hwn, cynigir tryloywder ychwanegol ar y costau hyn yn y gyllideb hon ac mewn cyllidebau a osodir yn y dyfodol hefyd.

- **Costau staffio** – cynnydd o £175k yn y gyllideb gyffredinol a'r gofyniad arian parod net, i adlewyrchu'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

Mae'r Comisiwn, felly, yn cynnig cyllideb Atodol ar gyfer cyfanswm ei gyllideb o £65.003 miliwn, sef cynnydd o £2.061 miliwn. Y cynnydd yn y gofyniad arian parod net fydd £325k fel y nodir yn nhabl 2 o'r Memorandwm Esboniadol.

Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith ar gyllideb gyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2022-23:

| £M | Cyllideb gymeradwy | arfaethedig Addasiadau Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 | arfaethedig Addasiadau y Bwrdd Taliadau Annibynnol a staffio eraill | Cyllideb ddiwygiedig arfaethedig |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb adnoddau | £43.425 | £1.736 | -£0.084 | £45.077 |
| Cyllideb ar gyfer Aelodau | £17.552 | - | - | £17.552 |
| Y Comisiynydd Safonau | £0.165 | - | -£0.068 | £0.097 |
| Y Bwrdd Taliadau | - | - | £0.477 | £0.477 |
| Cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol | £1.800 | - | - | £1.800 |
| Cyfanswm | £62.942 | £1.736 | £0.325 | £65.003 |

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, ar ôl i’ch Pwyllgor ystyried y cais hwn, bydd y Comisiwn yn gosod memorandwm esboniadol yn nodi'r cais hwn am Gyllideb Atodol.

Mae copi o'r memorandwm esboniadol hwn wedi'i atodi er hwylustod i chi ac mae'n cynnwys mwy o fanylion am y newidiadau arfaethedig hyn. Hefyd ynghlwm mae gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â’r costau i gefnogi’r gwaith o weinyddu’r Bwrdd Taliadau Annibynnol. Rhowch wybod i mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

**Cais ychwanegol am adnoddau**

Mae'r Comisiwn wedi nodi pryderon y Pwyllgor bod dogfen gyllideb 2022-23 a osodwyd ym mis Tachwedd 2021 wedi tynnu sylw at sefyllfaoedd a allai arwain at gyllidebau atodol yn ystod y flwyddyn, megis y cynnydd mewn taliadau Yswiriant Gwladol, a fyddai'n arwain at geisiadau am adnoddau pellach.

Nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad y dylai'r Comisiwn ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar wneud arbedion ac effeithlonrwydd i dalu’r costau sy’n deillio o bwysau yn ystod y flwyddyn, a defnyddio cyllidebau atodol fel dewis olaf yn unig, ond cydnabu'r gwerth wrth reoli'r gyllideb yn ddeinamig mewn ymateb i ffactorau allanol a blaenoriaethau sy'n newid.

Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi gofyn i'r Comisiwn ariannu pwysau yn ystod y flwyddyn y **mae ganddo reolaeth drostynt** o arbedion/effeithlonrwydd ac mae wedi gofyn i’r Comisiwn beidio â chymryd yn ganiataol y bydd unrhyw gynnydd mewn cyllid, yn unol â'i **Ddatganiad o Egwyddorion.**

Fodd bynnag, mae'n glir bod y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer staff y Comisiwn, a amcangyfrifir fel £175k, y tu allan i reolaeth y Comisiwn, er hynny, o ystyried pryderon y Pwyllgor, mae'r Comisiwn wedi adolygu'r pwysau ar gyllideb 2022-23 ac unrhyw arbedion neu

effeithlonrwydd posibl a allai godi, i asesu a oes angen cynnydd yn y gyllideb, i ariannu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae effaith gyffredinol penderfyniadau a wnaed mewn ymateb i'r galwadau ychwanegol ar y Comisiwn wedi arwain at bwysau digynsail ar ei gyllideb.

Mae'r pwysau hyn yn cynnwys y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar y Bwrdd Taliadau Annibynnol, cymorth ychwanegol ar gyfer Cymorth Busnes i'r Aelodau, cymorth ar gyfer y Cyfarfod Llawn Hybrid, rhagor o gymorth seiberddiogelwch, cymorth ar gyfer gwelliannau diogelwch i'r Aelodau ac ati.

Bydd y Comisiwn yn ceisio ariannu'r pwysau staffio ychwanegol hyn, yn ystod 2022-23, o ostyngiad byrdymor yng nghronfa'r prosiect, arbedion sy'n deillio o'r lefel uwch na'r disgwyl a ragwelir o swyddi gwag, ac arbedion posibl sy'n deillio o'r lefel is na'r disgwyl o e.e. teithio, lletygarwch ac ati.

Fodd bynnag, nid yw'r arbedion hyn, ac unrhyw arbedion ychwanegol sy'n deillio o ganlyniad yr Adolygiad Capasiti a Ffyrdd Newydd o Weithio, yn debygol o fod yn ddigonol i fodloni'r diffyg presennol a nodwyd yn 2022-23. Argymhellir, felly, bod y gyllideb atodol gyntaf yn cydnabod y pwysau ychwanegol hyn sy'n deillio o'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y gyllideb staffio.

**Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau o'r Senedd**

Rydym yn parhau i fod ymwybodol o'n hymrwymiad o ran unrhyw danwariant yn erbyn cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn y flwyddyn hon ac yn y dyfodol. Felly, rydym yn mabwysiadu'r un egwyddor â'r blynyddoedd blaenorol ar gyfer unrhyw swm dros ben a nodir yn ystod 2022-23; ni fyddwn yn defnyddio unrhyw danwariant a nodwyd, a byddwn yn cyflwyno ail gyllideb atodol i ddiwygio'r gyllideb a osodwyd yn wreiddiol, os bernir bod y tanwariant yn sylweddol.

Yn gywir,

Ken Skates AS
Anfonwyd copi at Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Atodol 2022-23:** Memorandwm Esboniadol

Mai 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neugyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Atodol 2022-23:** Memorandwm Esboniadol

Mai 2022

www.senedd.cymru



# Cynnwys

**1. Cefndir** .......... **6**

**1.1.** Memorandwm Esboniadol .......... 7

**1.2.** Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 – Prydlesi .......... 8

**1.3.** Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyfer Aelodau o'r Senedd .......... 10

**1.4.** Costau i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynydd Safonau. .......... 12

**1.5.** Costau staffio .......... 14

**1.6.** Effaith y Gyllideb .......... 16

**2. Cwmpas y gyllideb** .......... **17**

# Cefndir

Cafodd **Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2022-23** ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd 2021, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £62.942 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

- £43.425 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Senedd; a
- £17.552 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau o'r Senedd.

Darparwyd £1.800 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol, a darparwyd £0.165 miliwn ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â swyddfa'r Comisiynydd Safonau.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb atodol 2022-23 gymeradwy'r Comisiwn, drwy Gynnig Cyllideb Atodol.

# Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd cynyddu cyllideb gyffredinol y Comisiwn o £2.061 miliwn a chynyddu'r gofyniad arian parod net o £325k. Cynigir yr opsiynau a ganlyn:

- Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 – Prydlesi – cynnydd o £1.736 miliwn yn y gyllideb gyffredinol, heb unrhyw gynnydd yn y gofyniad arian parod net.
- Newidiadau i'r gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau – dim cynnydd yn y swm cyffredinol, fodd bynnag, cynigir newidiadau i'r llinellau unigol yn y gyllideb gan arwain at ddim cynnydd cyffredinol.
- Costau i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynydd Safonau – cynnydd net o £150k yn y gyllideb gyffredinol a'r gofyniad arian parod net; yng ngoleuni'r cynnydd hwn, cynigir tryloywder ychwanegol ar y costau hyn yn y gyllideb hon ac mewn cyllidebau a osodir yn y dyfodol hefyd.
- Costau staffio – cynnydd o £175k yn y gyllideb gyffredinol a'r gofyniad arian parod net, i adlewyrchu'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

# Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 – Prydlesi

Y bwriad oedd i'r safon gyfrifyddu newydd, Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi ("Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16"), ddod i rym o flwyddyn ariannol 2020-21. Yna, gwnaeth Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol benderfyniad i ohirio gweithredu Safon 16 tan 1 Ebrill 2021. Ym mis Tachwedd 2020, gwnaed cyhoeddiad arall gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol i ohirio gweithredu eto tan 1 Ebrill 2022.

Yn unol â Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16, mae'n rhaid rhoi cyfrif am bob prydles mewn modd cyson. Yn flaenorol, nid oedd prydlesi a ddosbarthwyd yn 'brydlesi gweithredol' yn cael eu cydnabod ac roeddent yn cael eu hadrodd 'oddi ar y fantolen'. Mae'r newid hwn yn effeithio'n bennaf ar sut yr ymdrinnir â phrydles adeilad Tŷ Hywel ym Mae Caerdydd. Ar hyn o bryd, nid yw Tŷ Hywel yn cael ei ddosbarthu fel ased ac nid yw'n cael ei ddibrisio.

O 1 Ebrill 2022, bydd yn cael ei gydnabod fel ased hawl defnyddio, a bydd yn cael ei ddibrisio dros y cyfnod y rhagwelir y bydd y brydles yn para yn y dyfodol. Mae'r newid yn arwain at gynnydd yn y taliadau dibrisiant a chyllid llog yng nghyllideb y Comisiwn. Caiff y taliadau hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad yng nghost rhentu'r swyddfa a ddangosir yn y gyllideb. Bydd cyllideb gyffredinol y Comisiwn yn cynyddu.

Fodd bynnag, ni fydd y newidiadau hyn yn cynyddu'r gofyniad arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru. Ni fydd newid yn swm y rhent a delir i'r landlord wrth weithredu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16, ond bydd y cyflwyniad cyfrifyddu yn wahanol.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol i adlewyrchu'r newidiadau a ganlyn:

- Cost adeiladau a chyfleusterau – gostyngiad o £2.78 miliwn (gostyngiad mewn taliadau rhent – Tŷ Hywel yn bennaf)
- Gwariant cyfalaf – cynnydd o £16k (gan gydnabod prydles newydd car at ddefnydd pawb)
- Taliadau Llog – cynnydd o £1.1 miliwn (un o ofynion Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16)

- Dibrisiant – cynnydd o £3.4 miliwn (dibrisiant Tŷ Hywel yn bennaf).

Mae'r newidiadau Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 hyn yn cynyddu cyllideb gyffredinol y Comisiwn o £1.736 miliwn, ond nid oes cynnydd yn y gofyniad arian parod net.

# Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyfer Aelodau o'r Senedd

Y Bwrdd Taliadau Annibynnol yw'r corff sy'n pennu cyflogau a thaliadau'r Aelodau a'u staff, a'r system o gymorth ariannol sydd ei hangen i'r Aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae'r Penderfyniad yn rhoi arian ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a/neu ddeiliad swydd, er enghraifft:

- cynnal swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a chostau teithio staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i'r Aelodau y mae eu cartref yn bellter sylweddol i ffwrdd (mae meini prawf cymhwysedd yn gymwys); a
- chymorth i Grwpiau'r Pleidiau ac ymchwil polisi.

Mae cyllideb 2022-23 y Comisiwn yn cynnwys swm, a nodwyd ar wahân, i fodloni darpariaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol. Ni ellir cyfrifo'r costau terfynol yn gywir tan ar ôl 31 Mawrth 2023. Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi gwneud newidiadau i'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn ei Benderfyniad sydd, er nad ydynt yn arwyddocaol yng nghyllideb gyffredinol y Comisiwn, yn effeithio ar y symiau unigol sy'n rhan o'r gyllideb a nodir ar wahân ar gyfer y Penderfyniad.

Nodir y newidiadau hyn yn adroddiad ar yr Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23 y Bwrdd Taliadau Annibynnol, dyddiedig Mawrth 2022.

Cynigir nad yw'r llinell gyffredinol yng nghyllideb y Penderfyniad yn cael ei chynyddu, ond y dylid addasu'r llinellau unigol ynddi i adlewyrchu'r newidiadau, er mwyn gallu dangos cymariaethau cywir yng nghyllideb 2023-24 i'w gosod yn ddiweddarach eleni.

| | 2022-23 Gosodwyd £000 | 2022-23 Wedi'i ailddatgan £000 | Newid £000 |
|---|---|---|---|
| Cyflogau Aelodau o’r Senedd ac argostau | £6,453 | £6,343 | (£111) |
| Cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ac argostau | £9,393 | £9,468 | £75 |
| Lwfansau a Chostau Swyddfa | £2,206 | £2,319 | £114 |
| Tanwariant disgwyliedig | (£500) | (£578) | (£78) |
| **Cyfanswm** | **£17,552** | **£17,552** | **£0** |

Felly, nid yw'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol ar gyfer y swm, a nodwyd ar wahân, i fodloni darpariaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

# Costau i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynydd Safonau.

Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn datgan:

> *9 Cymorth gweinyddol*
>
> *Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu ar gyfer y Bwrdd unrhyw gymorth gweinyddol y mae'n rhesymol i'r Bwrdd ofyn amdano i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau.*

Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi nodi ei flaenraglen waith ar gyfer y Chweched Senedd, ac mae hyn wedi'i ddogfennu yn ei adroddiad ar yr Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23, dyddiedig Mawrth 2022.

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys adolygiadau thematig sylweddol yn y Chweched Senedd a pharatoadau ar gyfer Penderfyniad diwygiedig ar gyfer y Seithfed Senedd. Ni ellir ei chyflawni o fewn yr adnoddau cyfyngedig presennol a ddarperir gan y Comisiwn. Mae'n bosibl y caiff y rhaglen waith ei diwygio os na fydd diwygio'r Senedd yn digwydd, ac efallai y bydd yr angen am adnoddau ar gyfer y dyfodol yn cael ei gwtogi. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi gofyn am staff ychwanegol i'w gefnogi i gyflawni ei raglen waith. Amcangyfrifir y bydd hyn yn £218k.

Mae'r Comisiynydd Safonau wedi nodi ei bod yn debygol y bydd angen lefel is o gymorth yn ystod 2022-23, sef gostyngiad o £68k.

Er mwyn sicrhau mwy o dryloywder yn y gyllideb hon ac mewn cyllidebau a osodir yn y dyfodol, cynigir bod costau sy'n ymwneud â chefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cael eu dileu o gyllideb weithredol y Comisiwn a'u nodi ar wahân, yn unol â chyflwyniad costau cymorth y Comisiynydd Safonau.

| | 2022-23 Gosodwyd £000 | 2022-23 Addasiad £000 | 2022-23 Diwygiedig £000 |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Weithredol** | **£43,425** | **(£259)** | **£43,166** |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau** | | | |
| Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig | £17,552 | - | £17,552 |
| **Costau Cymorth y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | - | £477 | £477 |
| Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | £165 | **(£68)** | £97 |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau (Gwariant a Reolir yn Flynyddol) | £1,800 | - | £1,800 |
| **Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn** | **£62,942** | **£150** | **£63,092** |
| **Cynnydd** | | | **£150** |

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol a fyddai'n cynyddu'r gyllideb ar gyfer costau cymorth y Bwrdd Taliadau Annibynnol gan £218k ac yn lleihau costau Swyddfa'r Comisiynydd Safonau gan £68k, sef cynnydd net cyffredinol o £150k. Bydd hyn hefyd yn cynyddu'r gofyniad arian parod net gan £150k. Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig cyflwyniad diwygiedig a fyddai'n gwella tryloywder.

# Costau staffio

Cytunwyd ar Gyllideb 2022-23 yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd 2021 ac roedd yn cynnwys y paragraff a ganlyn yn tynnu sylw at y posibilrwydd o Gyllideb Atodol ar gyfer 2022-23, yn dilyn y cyhoeddiad y byddai Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cynyddu 1.25 y cant o fis Ebrill 2022:

> *Costau Yswiriant Gwladol*
>
> *Pennir y gyllideb yn seiliedig ar angen ac nid oes llawer o le ar gyfer gofynion ychwanegol, felly mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at Gyllideb Atodol yn ystod 2022. Mae'n debygol mai tua £300k fydd cyfanswm effaith y cynnydd ar draws yr holl gostau cyflog (Aelodau o'r Senedd, staff cymorth yr Aelodau a staff y Comisiwn).*

Ystyriodd y Comisiwn effaith y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ei gyfarfod ar 9 Mai 2022, ar y cyd â phwysau cynyddol eraill ar y gyllideb staffio, sydd wedi dod i'r amlwg ers ei chymeradwyo ym mis Tachwedd 2021.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gofyn i'r Comisiwn ariannu pwysau yn ystod y flwyddyn y **mae ganddo reolaeth drostynt** o arbedion/effeithlonrwydd ac mae wedi gofyn i'r Comisiwn beidio â chymryd yn ganiataol y bydd unrhyw gynnydd mewn cyllid, yn unol â'i Ddatganiad o Egwyddorion.

Fodd bynnag, mae'n glir bod y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer staff y Comisiwn, a amcangyfrifir fel £175k, y tu allan i reolaeth y Comisiwn, ond mae'r Comisiwn wedi adolygu'r pwysau ar gyllideb 2022-23 ac unrhyw arbedion neu effeithlonrwydd posibl a allai godi, i asesu a oes angen cynnydd yn y gyllideb, i ariannu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae effaith gyffredinol penderfyniadau a wnaed mewn ymateb i'r galwadau ychwanegol ar y Comisiwn wedi arwain at bwysau digynsail ar ei gyllideb.

Mae'r pwysau hyn yn cynnwys y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar y Bwrdd Taliadau Annibynnol, cymorth ychwanegol ar gyfer Cymorth Busnes i'r Aelodau, cymorth ar gyfer y Cyfarfod Llawn Hybrid, rhagor o gymorth seiberddiogelwch, cymorth ar gyfer gwelliannau diogelwch i'r Aelodau ac ati.

Bydd y Comisiwn yn ceisio ariannu'r pwysau hyn, yn ystod 2022-23, o ostyngiad byrdymor yng nghronfa'r prosiect, arbedion sy'n deillio o'r lefel uwch na'r disgwyl o swyddi gwag ar hyn o bryd, ac arbedion posibl sy'n deillio o'r lefel is na'r disgwyl o e.e. teithio, lletygarwch ac ati.

Fodd bynnag, nid yw'r arbedion hyn, ac unrhyw arbedion ychwanegol sy'n deillio o ganlyniad yr Adolygiad Capasiti a Ffyrdd Newydd o Weithio, yn debygol o fod yn ddigonol i fodloni'r diffyg presennol. Argymhellir, felly, bod y gyllideb atodol gyntaf yn cydnabod y pwysau ychwanegol hyn ar y gyllideb staffio.

| | **2022-23 Gosodwyd £000** | **2022-23 Yswiriant Gwladol £000** | **2022-23 Pwysau Staffio £000** | **2022-23 Wedi'i ailddatgan £000** | **Newid £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff y Comisiwn | £28,417 | £175 | £175k | £28,767 | £350 |
| Swyddi Gwag / Trosiant Staff | (£1,000) | - | (£175) | (£1,175) | (£175) |
| **Cyfanswm costau staffio** | **£27,417** | **£175** | **-** | **£27,592** | **£175** |

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol o £175k i ymateb i'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr, £175k i ariannu pwysau ychwanegol ar y gyllideb staffio, wedi'i wrthbwyso gan gynnydd o £175k yn lefel y swyddi gwag/trosiant a ddisgwylir yn ystod 2022-23. Bydd hyn yn cynyddu'r gofyniad arian parod net gan £175k.

# Effaith y Gyllideb

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn cynnig yr hyn a ganlyn:

- Cynnydd yng nghyllideb y Comisiwn o £2.061 miliwn.
- Cynnydd yn y gofyniad arian parod net o £0.325 miliwn.

# Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau a gofynion y gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn awdurdodi defnyddio'r adnoddau net ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net y rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod eu talu.

Nodir cyllideb ddiwygiedig 2022-23 Comisiwn y Senedd, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion diwygiedig, yn Nhabl 1 isod.

| Tabl 1 | Diwygiedig £000 |
|---|---|
| Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ("y Comisiwn") ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.<br>Adnoddau heblaw am adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd. | 65,003 |
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn:<br>▪ o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>▪ incwm rhent; rhoddion; grantiau; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Senedd. | 220 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn o ran y gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei hadennill. | 59,567 |

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 2: Gofyniad Arian Parod** | **£'000<br>2022-23<br>Gosodwyd** | **£'000<br>2022-23<br>Diwygiedig** |
|---|---:|---:|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | 17,552 | 17,552 |
| Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | 165 | 97 |
| Costau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol | - | 477 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | 42,925 | 44,561 |
| Gofyniad cyfalaf net | 500 | 516 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 1,800 | 1,800 |
| **Is-gyfanswm** | **62,942** | **65,003** |
| **Addasiadau** | | |
| Dibrisiant | (2,250) | (5,650) |
| Taliadau llog/Addasiadau cyfalaf | - | (1,116) |
| Taliadau rhent | - | 2,780 |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (1,800) | (1,800) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | 350 | 350 |
| **Is-gyfanswm** | **(3,700)** | **(5,436)** |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | **59,242** | **59,567** |
| **Cynnydd** | | **£325** |